Grŵp Trawsbleidiol 10 Gorffennaf 2018, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Plismona yng Nghymru

Strwythur

Mae pedwar Heddlu yng Nghymru ac mae gan bob un ohonynt Gomisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig a Phrif Gwnstabl sy'n canolbwyntio ar agweddau gweithredol.

Heddlu	Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu	Prif Gwnstabl
Dyfed-Powys	Dafydd Llywelyn	Mark Collins
Gwent	Jeff Cuthbert	Julie Williams
Gogledd Cymru	Arfon Jones	Mark Polin
De Cymru	Alun Michael	Matt Jukes



Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yn Gorfforaethau Unigol, h.y. endidau cyfreithiol ar wahân sydd â chyfrifoldebau pendant.

Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Etholwyd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gyntaf yng Nghymru a Lloegr ym mis Tachwedd 2012. Etholir y Comisiynwyr i wasanaethu am gyfnod o bedair blynedd a chynhaliwyd yr ail rownd o etholiadau ym mis Mai 2016.

Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am yr holl blismona yn eu priod ardaloedd a rhaid iddynt sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am benodi Prif Gwnstabliaid a'u dwyn i gyfrif am arfer -

- Eu swyddogaethau fel Prif Gwnstabliaid; a
- Swyddogaethau pobl dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl.

Mae'r Comisiynwyr yn darparu adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i'r Prif Gwnstabliaid er mwyn iddynt arfer eu swyddogaethau. Maent yn gyfrifol am y gronfa plismona sy'n cynnwys gosod cyfradd y praesept lleol ar gyfer plismona.

Mae ganddynt hefyd gyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r gofyniad plismona strategol, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2012, sy'n ceisio sicrhau bod digon o alluoedd ar waith i ymateb i fygythiadau difrifol a thrawsffiniol. Rhaid i Gomisiynwyr hefyd wneud trefniadau, gyda chyrff cyfiawnder troseddol yn eu hardal, i ddarparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol (gweler Papur Briffio'r Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn yr Atodiad).

Fel y mae eu teitl yn awgrymu maent hefyd yn comisiynu ystod o wasanaethau, gan gynnwys -

- Y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr - Cefnogi Dioddefwyr Troseddau
- Darparu Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig/Rhywiol/ Darpariaeth ar gyfer Cyflawnwyr - Agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Darpariaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwella Diogelwch
- Plant yr Effeithiwyd arnynt gan Rieni yn y Carchar mewn cydweithrediad â'r ALlau
- Cam-drin Plant yn Rhywiol
- Prosiect Braenaru Merched
- Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau ar y cyd â Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM
- Caethwasiaeth Fodern
- Cynllun Newydd y Gronfa Ymyrraeth Gynnar

Cynlluniau Heddlu a Throseddu

Rhaid i bob Comisiynydd gyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n nodi eu hamcanion a'u blaenoriaethau heddlu a throseddu ar gyfer eu priod ardaloedd. Mae'r Cynlluniau'n cael eu cyhoeddi ar eu gwefannau sydd ar gael drwy'r dolenni canlynol:

http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/

http://www.gwent.pcc.police.uk/

http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Hafan.aspx

http://commissioner.south-wales.police.uk/cy/

Paneli Heddlu a Throseddu

Ers mis Tachwedd 2012, mae gan y Paneli Heddlu a Throseddu rôl hanfodol o ran herio a chefnogi pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu, trwy graffu ar eu praeseptau a'u cynlluniau heddlu a throseddu, cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer y ddwy swyddogaeth statudol, ac ymdrin â chwynion yn erbyn y Comisiynydd. Mae aelodau'r Paneli yn cynnwys aelodau etholedig o'r awdurdodau lleol yn eu hardal ac aelodau annibynnol. Dylai cynrychiolaeth yr awdurdod lleol ar y Panel fod yn gymesur yn wleidyddol h.y. adlewyrchu cyfanswm nifer y cynghorwyr yn ardal yr heddlu.

Prif Gwnstabliaid

Penodir Prif Gwnstabliaid gan Gomisiynwyr ac maent yn gyfrifol am yr holl faterion gweithredol yn ardaloedd eu Heddlu. Maent yn gwneud penderfyniadau gweithredol yn annibynnol ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Maent hefyd yn paratoi cynllun cyflawni sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun heddlu a throseddu’r Comisiynydd. Mae'r Prif Gwnstabliaid hefyd wedi ffurfio Grŵp Prif Swyddogion Cymru a Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, yw’r Cadeirydd Cyfredol.

Grŵp Plismona Cymru Gyfan

Sefydlwyd Grŵp Plismona Cymru Gyfan i alluogi Comisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid i gydlynu gwaith plismona a gweithgarwch cydweithio ar sail ranbarthol. Mae'r Grŵp yn cwrdd bob chwarter ac mae'r Gadair yn cylchdroi yn flynyddol rhwng y pedwar Comisiynydd. Jeff Cuthbert yw’r Cadeirydd presennol.

Mae plismona yng Nghymru yn wahanol - Gwasanaeth heb ei ddatganoli yn gweithredu mewn amgylchedd sydd wedi'i ddatganoli yn bennaf

Mae gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru yn parhau i fod dan gyfrifoldeb y Swyddfa Gartref ac er gwaethaf ceisiadau gan Lywodraeth Cymru i ddatganoli plismona, mae Llywodraeth y DU wedi dweud yn gyson na fydd yn gwneud hynny.

Mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru wedi datgan mai eu dymuniad hwy ar y cyd y bod plismona’n cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser byddant yn ceisio gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn darparu gwasanaeth cyfannol i bobl Cymru.

Nid oes modd osgoi'r angen i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru o ystyried maint y cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli, gan gynnwys:

- Diogelwch Cymunedol
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Llywodraeth Leol
- Awdurdodau Tân
- Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â chyfrifoldebau am amddiffynfeydd rhag llifogydd, rheoli gwastraff, coedwigoedd, ardaloedd gwarchodedig o dir a moroedd, yr amgylchedd.
- Trafnidiaeth

- Tai
- Adfywio
- Datblygu economaidd ac economi gynaliadwy
- Prentisiaethau
- Y Gymraeg

Mae'r rhain yn amlwg yn feysydd partneriaeth allweddol ac mae'n hollbwysig bod y gwasanaeth heddlu'n cydweithio'n agos gyda'r Adrannau a'r asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn o ystyried eu cyd-ddibyniaeth ar ei gilydd.

Mae'r Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid yn ymgysylltu'n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ystyried ei nod i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid hefyd wedi ymrwymo i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi derbyn y gwahoddiad statudol i ddod yn aelodau sy'n cyfranogi'n llawn o bob Bwrdd ledled Cymru.

Mae'r rhain yn ddarluniau clir sy'n amlygu pam fod "plismona yng Nghymru yn wahanol" a pham y mae'n rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid roi sylw i safbwynt y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni all Llywodraeth y DU fynnu bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru yn dilyn ei chyfarwyddiadau hi os ydynt yn effeithio ar wasanaeth sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru.

O ystyried maint eang y cyfrifoldebau datganoledig, ni ellir tanddatgan arwyddocâd y cyd-destun hwn ac mae'n bwysig deall hyn yn llawn.

Trefniadau gwaith cyfredol

Mae cysylltiadau gweithio cryf wedi'u ffurfio eisoes rhwng Comisiynwyr, Prif Gwnstabliaid a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn hanfodol o ystyried eu priod gyfrifoldebau a'r angen i weithio mewn partneriaethau allweddol, yn enwedig o fewn llywodraeth leol, diogelwch cymunedol a chydweithio ym maes iechyd ledled Cymru.

Mae Uned Cyswllt yr Heddlu yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, eisoes yn pontio rhwng y gwasanaeth heddlu a Llywodraeth Cymru.

Ceir hefyd y dimensiwn ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyllid yr heddlu yn yr ystyr bod gan Lywodraeth Cymru (o dan offeryn statudol) y pŵer i gapio lefelau praeseptau yng Nghymru a all gael effaith uniongyrchol ar gronfa'r heddlu sydd ar gael i'r Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ariannu swyddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar draws y pedwar heddlu hefyd, a werthfawrogir yn fawr gan heddluoedd a chymunedau fel ei gilydd. Mae trefniadau ariannu traws-lywodraethol hefyd wedi achosi materion rhwystrol serch hynny, megis y rhai a brofir dros yr 'ardoll Prentisiaeth'.

O ran y berthynas ar y cyfan rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar faterion plismona, mae bwlch gwybodaeth sylweddol a mynych o ran materion sydd wedi'u datganoli. Yn aml, mae'r polisi a'r strategaeth a gyflëir gan Whitehall yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran

materion plismona yng Nghymru ac mae wedi achosi peth tensiwn a rhwystredigaeth a dweud y lleiaf. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys y 'Concordat Iechyd Meddwl' (a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona), canllawiau ar gyfer trin pobl ifanc yn nalfa'r heddlu / llety diogel, strategaeth carchardai'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar adsefydlu a llu o faterion arolygu ar y cyd, y maent i gyd wedi methu â deall natur unigryw plismona ochr yn ochr â swyddogaethau sydd wedi'u datganoli yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod perthynas waith gref rhwng yr holl bartïon o ystyried y meysydd sylweddol o gyd-ddiddordeb a chyd-ddibyniaeth a'r angen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, effeithlon ac effeithiol i bobl Cymru.

Yr Heriau Presennol sy'n wynebu Plismona yng Nghymru

Ers cyhoeddi Comisiwn Silk yn 2014, mae'r galwadau ar blismona yng Nghymru wedi newid yn sylweddol. Mae'r angen hwn sy'n esblygu ac yn ehangu'n her allweddol i'r pedwar heddlu yng Nghymru. Mae rhai troseddau "traddodiadol" fel byrgleriaeth a throseddau ceir wedi gostwng dros y degawdau diwethaf ond mae cwynion am drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol wedi mwy na dyblu. Bu cynnydd hefyd mewn bygythiadau terfysgol, yn ogystal â throseddau a alluogir gan y rhyngrwyd a seiberdroseddu.

Mae tystiolaeth ddigidol hefyd yn dod yn her sylweddol ac ni fydd hyn ond yn cynyddu, gan gael effaith o ran ymchwiliadau troseddol ac o ran datgelu tystiolaeth – bellach gall achos cymharol syml fod â thystiolaeth sy'n cynnwys miloedd o negeseuon testun neu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Er mwyn dangos y galw presennol, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd o 29% yn y troseddau a gofnodwyd ers 2014, ar adeg pan fo nifer y cyflogeion sifil sydd ganddo wedi gostwng o 713 i 649. Yn yr un modd, mae Heddlu De Cymru yn cael dros filiwn o alwadau bob blwyddyn gyda dim ond oddeutu 100,000 o'r rhain yn arwain at drosedd yr hysbyswyd yn ei gylch. Yn 2017/18, ymdriniodd yr heddlu â 188,251 o alwadau brys (999), 518,883 o achosion di-frys (galwadau 101), fe gofnododd 358,922 o ddigwyddiadau, ac fe wnaeth 27,810 o arestiadau gan olygu mai'r heddlu hwn oedd y 13^{eg} heddlu prysuraf yng Nghymru a Lloegr (y tu allan i Lundain) o ran troseddau am bob 1000 o bobl.

Ar hyn o bryd mae heddluoedd Cymru yn ymdrin â'r bygythiad sy'n dod i'r amlwg yn sgîl troseddoldeb trawsffiniol - mae'r term 'ffiniau sirol' yn cyfeirio at grwpiau troseddu cyfundrefnol o'r tu allan i ardal heddlu, sy'n teithio i mewn i ardal yr heddlu i ehangu eu mentrau troseddol. Yn gyffredinol, nodweddir hyn gan weithgarwch gwerthu cyffuriau mewn cymunedau lleol a gweithgarwch camfanteisio ar bobl agored i niwed. Mae hefyd yn argoel o gynnydd mewn troseddau treisgar ac, yn drawiadol, mae achosion o droseddau cyllyll yn cynyddu. Mae arferion camddefnyddio cyffuriau lleol wedi ei gwreiddio yn ein cymunedau, a chaiff hyn ei waethygu gan

ddyfodiad gangiau cyffuriau i mewn i gymunedau o Lundain, Glannau Mersi, Manceinion a Birmingham, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013. Er nad camfanteisio'n rhywiol ar blant yw prif ffocws y gangiau hyn, defnyddir hyn yn aml fel rhan o'r fethodoleg paratoi i bwrpas rhyw neu reoli a arferir. Yng Ngogledd Cymru, caiff y bygythiad hwn ei waethygu gan ei gysylltiad â seilwaith traffyrdd Lloegr ar hyd Gwibffordd yr A55 sy'n bwydo porthladd Caergybi (yr ail brysuraf yn y DU). Yn ardal De Cymru yn unig, mae Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe bellach ymhlith y deg lleoliad uchaf ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau yn y Deyrnas Unedig. Mae'r mater hwn yn pwysleisio nad yw troseddau'n cydnabod ffiniau cenedlaethol na ffiniau gweinyddol, ac mae'n tanlinellu'r angen am ddull cydweithredol a chydlynol o fynd i'r afael â hynny.

Ein prifddinas, Caerdydd, yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop ac mae'n denu dros 18 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r ddinas yn gartref i Stadiwm y Principality, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, tîm pêl-droed sydd yn Uwch Gynghrair Lloegr, stadiwm criced SWALEC a dros 94,000 o fyfyrwyr.

Mae'r ffaith ei bod yn gartref i Lywodraeth Cymru yn golygu bod angen darparu uned blismona bwrpasol o'r heddluoedd i gefnogi hynny.

Er gwaethaf y gofynion hyn, nid yw Caerdydd yn cael ei chydnabod ar gyfer cyllid prifddinas, yn wahanol i Lundain a Chaeredin. Amcangyfrifir y bydd yn costio £3.5 miliwn yn ychwanegol i blismona prifddinas ond ar hyn o bryd nid yw'r costau hyn yn cael eu hariannu.

Dylid cyfeirio hefyd at asedau strategol Heddlu De Cymru – sydd nid yn unig yn darparu gwasanaeth lleol ond sydd hefyd yn rhoi cymorth i ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig y tu allan i ardal yr heddlu. Mae'r heddlu yn plismona tua 500 o ddigwyddiadau bob blwyddyn gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol, ymweliadau brenhinol ac arddangosiadau. Yn 2017, cynhaliwyd Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA, digwyddiad chwaraeon unigol mwyaf y flwyddyn, yng Nghaerdydd a hynny'n ddigwyddiad llwyddiannus. Ni ddisgwylir i'r agwedd hon ostwng gydag ymdrechion parhaus Llywodraeth Cymru i annog mwy o ddigwyddiadau ar raddfa fawr i ddod i Gymru.

Daw'r darlun esblygol hwn o ran y galw yn erbyn cefndir o gyni cyllidol yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Ers 2011 mae adnoddau'r heddlu wedi gostwng 20%, e.e. mae Heddlu Gogledd Cymru eisoes wedi gwneud arbedion o £29.625m ac mae £8.85m pellach yn ofynnol dros y pum mlynedd nesaf (cyn 2022/23). Ers yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2010, mae cyllid grant canolog i Heddlu Dyfed Powys wedi gostwng 22 y cant (neu £14.16 miliwn) a gorfu i'r heddlu wneud arbedion o £24.7 miliwn. Mae gan Heddlu De Cymru fil yn llai o aelodau o staff ac mae ei gyllideb wedi gostwng £50 miliwn. Mae angen ystyried effeithiau mesurau cyni o'r fath ar y system Cyfiawnder Troseddol ehangach hefyd oherwydd natur gysylltiedig ein darpariaeth gwasanaeth.

Mae cydweithio'n mynd yn fwyfwy angenrheidiol. Mae heddluoedd yn ffurfio partneriaethau agosach drwy'r amser i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed trwy ganolfannau aml-asiantaeth. Mae

Heddluoedd Gwent, De Cymru a Gogledd Cymru wedi sefydlu canolfannau tri gwasanaeth gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn gweithio gyda'r heddluoedd a'r partneriaid eraill (y tu mewn a'r tu allan i'r sector cyfiawnder) i ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu cymunedau mewn modd cydweithredol.

Trefniadau cyllido yn y dyfodol

Rydym yn gobeithio adeiladu ar y berthynas weithio bresennol gyda Llywodraeth Cymru a hefyd creu ffordd newydd o ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r Grŵp Trawsbleidiol. Mae plismona'n gymhleth ac, am ei fod wedi'i ddatganoli, efallai na fydd Aelodau'r Cynulliad yn gyfarwydd â'r materion sy'n effeithio ar y gwasanaeth ac i ba raddau maent yn gysylltiedig â gwasanaethau datganoledig eraill yng Nghymru.

Bydd y fforwm hwn yn rhoi cyfle i fod yn gynhwysol ac i ddatblygu dealltwriaeth am y materion hyn ar sail drawsbleidiol. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â chi a gobeithio y gallwn ddatblygu dealltwriaeth gyffredin am blismona yng Nghymru a sut y gallwn adnabod dulliau cyfannol er lles ein cymunedau.